Croeso i Bwyllgor Archwilio

Annwyl Ymwelydd

Croeso i gyfarfod o Bwyllgor Archwilio. I helpu i chi ddilyn y trafodion fe welwch esboniad isod o swyddogaeth Archwiliad a beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod. Gobeithiwn y byddwch yn cael y cyfarfod yn ddefnyddiol a diddorol.

Trefniadau Gwleidyddol yng Nghyngor Wrecsam
Yn Wrecsam, mae'r cyhoedd yn ethol 52 o Gynghorwyr i gynrychioli 47 ward y Fwrdeistref Sirol ac i gyfarfod fel corff penderfynu eithaf yr Awdurdod ar brif gynlluniau a strategaethau'r Cyngor. Bob blwyddyn bydd y Cyngor Llawn yn dewis Bwrdd Gweithredol, sy'n cynnwys 10 o Gynghorwyr fydd yn cyfarfod bob rhyw bythefnos ac yn gwneud mwyafrif y penderfyniadau polisi eraill ar ran y Cyngor. **Mae Pwyllgorau Archwilio'n cynnwys Cynghorwyr nad ydynt ar y Bwrdd Gweithredol.**

Beth all Pwyllgorau Archwilio wneud?
Ni all Pwyllgorau Archwilio wneud penderfyniadau. Gall pob Pwyllgor Archwilio adolygu polisïau a phenderfyniadau, ymwneud â datblygu polisïau, gwneud y Bwrdd Gweithredol a Swyddogion y Cyngor yn atebol, gwneud adolygiadau er mwyn gwella gwasanaethau, archwilio gwasanaethau asiantaethau allanol sy'n effeithio ar bobl Wrecsam a gwneud argymhellion ar sail tystiolaeth i'w cyfeirio at y Bwrdd Gweithredol neu'r Cyngor llawn, fel y bo'n briodol.
Felly, mae'r swyddogaeth Archwilio'n bwysig i ddangos atebolrwydd y Cyngor. Er enghraifft, gall Aelodau Archwilio fynnu bod Aelodau'r Bwrdd Gweithredol a Swyddogion yn mynychu cyfarfodydd archwilio i roi cyfrif am eu penderfyniadau.

Cyfarfod y Pwyllgor
Mae 13 Aelod o'r Pwyllgor Archwilio. Caiff eu cyfarfodydd eu cadeirio bob yn ail gan ddau Gydgadeirydd fydd yn rheoli'r cyfarfod a sicrhau bod materion yn cael eu hystyried yn unol â gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol y Cyngor. Yn ôl doethineb y Cydgadeirydd, bydd Aelodau'r Pwyllgor a Chynghorwyr eraill yn cael cynnig i roi sylwadau ar bob eitem o fusnes. Mae holl gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ar agor i'r cyhoedd a gall y cyhoedd gyfrannu at gyfarfod archwilio yn unol â chyfansoddiad y Cyngor ac yn ôl doethineb y Cadeirydd. Ambell waith bydd y Pwyllgor yn ystyried materion o natur gydgyfrinachol ac, ar adegau o'r fath, bydd gofyn i unrhyw aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol ymadael tra bydd yr eitem honno'n cael ei hystyried. Yn dilyn dadl gall aelodau'r Pwyllgor bleidleisio ar y camau y maent am eu cymryd. Os yw'r bleidlais yn gyfartal bydd pleidlais fwrw gan y Cydgadeirydd sy'n llywyddu.

Sut mae gwaith yn dod i Bwyllgorau Archwilio?
Bydd pob Pwyllgor Archwilio'n cyhoeddi rhaglen waith, sy'n rhestru ei ymrwymiadau archwilio am y misoedd a ddaw. Gall unrhyw un awgrymu mater i'w archwilio, er mai'r Pwyllgor sy'n penderfynu a yw mater i gael ei archwilio. **I gael rhagor o wybodaeth, neu awgrymu eitem ar gyfer rhaglen waith y pwyllgor archwilio, cysylltwch â Keith Lea, Rheolwr Archwilio, ar 01978 292257. E-bost Keith.Lea@Wrexham.Gov.uk**